




Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park Authority

**Canllawiau ar gyfer digwyddiadau
Cystadleuol, Hamdden ac Elusennol wedi'u
Trefnu ym Mharc Cenedlaethol Eryri**

- 
- 3** Cyflwyniad
 - 4** Pwrpas y Canllaw Digwyddiadau
 - 5 - 6** Mathau o ddigwyddiadau a'r cyfnodau amser a argymhellir
 - 7 - 9** Blaengynllunio
 - 10 - 12** Cyngor cyffredinol ar gyfer grwpiau ac unigolion
 - 13 - 14** Gwybodaeth ac arweiniad penodol i'r Wyddfa
 - 15** Beicio Mynydd a Chytundeb Gwirfoddol Yr Wyddfa
 - 17** Her y Tri Chopa
 - 17** Ar ôl eich digwyddiad
 - 18** Meddwl yn Lleol – cefnogi'r economi leol
 - 19** Cwn yng Nghefn Gwlad & Da Byw
 - 19** Gwersylla Gwyllt
 - 20 - 24** Mynediad at Ddŵr gan gynnwys Bio Ddiogelwch
 - 25** Ffilmio ar Eiddo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
 - 26** Cyngor arall ar godi arian yn y DU
 - 27** Helpu i warchod Parc Cenedlaethol Eryri.
 - 28 - 30** Manylion cyswllt

Cyflwyniad

Eryri yw'r pedwerydd Parc Cenedlaethol mwyaf o fewn teulu'r DU ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddo gyflawni dau bwrpas statudol:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae gennym hefyd ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc.



Pwrpas y Canllawiau Digwyddiadau

Mae diddordeb yn a'r amrywiaeth o weithgareddau digwyddiadau her elusennol, hamdden a threfniadol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer fawr o sefydliadau ac elusennau yn gwneud defnydd llawn o'r awyr agored yn Eryri - yn enwedig ar Yr Wyddfa ei hun. Bydd y ddogfen hon yn cynnig cyngor ymarferol i drefnwyr digwyddiadau ar sut i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn mewn ffordd ddiogel, gyfrifol, gynaliadwy ac effeithlon fel nad ydynt yn niweidiol i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac er mwyn sicrhau bod y rhinweddau arbennig hyn yn cael eu cynnal.

Mae agwedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri tuag at ddigwyddiadau o'r fath yn gyfeillgar ac mae'n cydnabod bod digwyddiadau yn cynnig llawer o gyfleoedd i'w mwynhau ar ffurf hamdden awyr agored sy'n fuddiol i iechyd a lles, ac mae gan y digwyddiadau hynny y capasiti i godi symiau sylweddol o arian i elusennau a chyfrannu'n sylweddol at yr economi leol bob blwyddyn.

Er bod y mwyafrif o ddigwyddiadau wedi'u trefnu'n dda, cafwyd enghreifftiau o arfer a rheolaeth wael, ac mae hynny'n gallu arwain at aflonyddu diangen ar drigolion lleol, ymwelwyr eraill, digwyddiadau arfaethedig eraill, busnesau lleol, arferion ffermio a difrod i dirweddau. Gall digwyddiad a gynlluniwyd yn dda helpu i leihau unrhyw effeithiau negyddol wrth ddarparu cyfleoedd gwych ar gyfer antur a mwynhad yn yr awyr agored sydd o fudd i bawb.

Felly, mae angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wybod pa ddigwyddiadau o faint canolig a mwy (y rhai sy'n cynnwys 50 neu fwy o gyfranogwyr) sy'n cael eu trefnu yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer budd masnachol, y rhai a drefnir i godi arian ar ran sefydliadau elusennol cofrestredig neu achosion da eraill.

Mae gwybod sut y maent yn cael eu cynllunio a'u trefnu yn ein galluogi ni i gynnig arweiniad a chynghor ymarferol fel y gallant ddigwydd heb achosi anawsterau neu aflonyddu ar yr amgylchedd, cymunedau lleol a ddefnyddwyr hamdden eraill.

Y mathau o ddigwyddiadau a gwmpesir gan y canllawiau hyn yw:

Gweithgareddau ar droed, beicio, marchogaeth sy'n denu mwy na 50 o gyfranogwyr. Anogir gweithgareddau ar gyfer niferoedd llai na 50 hefyd i gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

Dyma'r 'rheol' gyffredinol ar gyfer digwyddiadau ac amserlenni a argymhellir ar gyfer cyfathrebu lle bo angen.

Maint y digwyddiad	Bach	Canolig	Mawr
Digwyddiadau ar droed	50	50-200	200+
Digwyddiadau beicio mynydd	30	30- 50	50+
Digwyddiadau marchogaeth	10	11-30	30+

	Bach	Canolig	Mawr
Y cyfnod cynllunio ac ymchwil a argymhellir	2 mis	6 -12 mis	12 – 16 mis
Manylion y digwyddiad	1 mis	2 - 4 mis	4-8 mis
Manylion terfynol	2 mis	4 mis	2 mis

Fodd bynnag, nid oes angen ymgynghori gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ynghylch unrhyw ddigwyddiadau sy'n cynnwys llai na 50 o bobl, fodd bynnag; rydym yn barod iawn i gynnig cyngor i'r grwpiau neu'r unigolion hynny. Dylai'r rhai sy'n cynllunio gweithgareddau anarferol (waeth beth fo maint y grŵp) drafod eu cynlluniau bob amser gyda swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol i osgoi unrhyw anawsterau.

Er bod y digwyddiadau mwyaf ffurfiol yn digwydd ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol (hy llwybrau troed a llwybrau ceffylau) mae cryn dipyn o'r tir yn y Parc Cenedlaethol yn eiddo preifat ac rydym yn argymhell yn gryf bod trefnwyr digwyddiadau canolig a mwy yn cysylltu â't tirfeddianwyr ar hyd y llwybr arfaethedig mewn da bryd (gweler y grid canllaw uchod).

Mae tirfeddianwyr yn gwerthfawrogi fod sgysiau yn cael eu cynnal yn gynnar yn y broses ac o ystyried eu gwybodaeth a'u harbenigedd leol, maent mewn sefyllfa unigryw i allu cynorthwyo a chynghori trefnwyr. Dylech ganiatáu digon o amser ac fe ddylech eu cynnwys yn eich cynllun cyn-y-digwyddiad i osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid gyda'u gweithgareddau amaethyddol perthnasol megis casglu defaid, wyna, arferion bugeilio, lloi, rheoli stoc, torri / storio gwair / silwair, gwaith draenio, drilio cnwd, walio, chwistrellu cnydau neu ffensio.

Mae hyn yn hanfodol os ydych chi'n cynllunio i gynnal digwyddiad sy'n cynnwys unrhyw lwybrau ar dir mynediad sydd ddim ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus ond ar 'dir mynediad' (fel y'i disgrifir gan y Ddeddf CGaHT 2000 ac a amlinellir ar unrhyw fap OS Explorer 1.25.000 mewn lliw hufen). Mewn achosion o'r fath, dylech gysylltu â, a chael caniatâd y tirlfeddianwyr perthnasol ddigon pell ymlaen llaw bob amser. Gallai'r ardaloedd hynny hefyd gynnwys comin lle mae pori ar y cyd yn digwydd felly bydd angen i chi gysylltu gydag Ysgrifennydd perthnasol y Gymdeithas Porwyr.

I gael mynediad i goetiroedd cyhoeddus (coedwigoedd conifferaidd sydd fel arfer dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru), bydd angen i chi geisio caniatâd ar gyfer unrhyw weithgareddau a drefnir gan **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**. Nodwch y gall coetiroedd eraill fod yn eiddo preifat a bydd angen caniatâd gan dirfeddianwyr.

<https://naturalresources.wales/about-us/contact-us>

- **Cyfrifoldeb y trefnwyr yw cysylltu â thirfeddianwyr** pan fo angen felly **cynlluniwch ymlaen llaw yn ddigon buan**. Gellir cael gwybodaeth am y cysylltiadau hyn fel rheol gan Swyddogion o'r Parc Cenedlaethol.
(01766 770 274 / parc@eryri.llyw.cymru <<mailto:parc@eryri.llyw.cymru>>)

Blaengynllunio a Beth mae'r Parc Cenedlaethol ei angen gennych chi!

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn mynnu bod trefnwyr digwyddiadau yn darparu'r wybodaeth ganlynol ymlaen llaw (gweler maint ac amser y digwyddiad a argymhellir ar dudalen 2) lle bo modd. Mae cynllunio ymlaen llaw yn hanfodol er mwyn sicrhau bod digwyddiadau'n llwyddiannus ac yn bleserus i bawb!

Eich rhestr wirio:

- Y nifer rydych chi'n ragweld / ddisgwyl fydd yn cymryd rhan.
- Amlinelliad syml o drefniadau cynllun eich digwyddiad, ee be' yn union rydych chi'n bwriadu ei wneud.
- Manylion cyswllt llawn cydlynwyr y digwyddiadau a / neu drefnwyr, gan gynnwys y rhai ar gyfer diwrnod y digwyddiad.
- Dyddiad (au) eich digwyddiad a manylion y llwybrau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio. Anfonwch fapiau digidol wedi'i marcio atom trwy e-bost i'w hystyried os yn bosibl.
- Rhowch wybod i ni ynghylch y marsialiaid, monitro neu gyflenwi goruchwyliaeth ar gyfer eich digwyddiad, y manau gwirio cynlluniedig (a'r gorsafoedd bwydo / darparu hylif).
- Manylion eich trefniadau parcio - disgrifiad syml o ble fydd parcio ar gael.
- Eich trefniadau Cymorth Cyntaf
- Eich trefniadau wrth gefn os oes modd, hynny yw, eich dyddiadau wrth gefn.
- Eich trefniadau ar ôl y digwyddiad – h.y. ysbwriel, fflagiau / arwyddion ac ategolion / ategolion neu 'baraphernalia' eraill
- Manylion ynghylch unrhyw gyswllt a gafwyd gyda'r tîrfeddiannwr / ffermwr (os oes angen).

Cyn eich digwyddiad: gwiriwch!

1. Dylai cynllunwyr digwyddiadau **osgoi llwybrau mewn ardaloedd lle mae bywyd gwyllt pwysig, safleoedd biolegol neu archeolegol sensitif.**

Noder. * Mae'r holl brif lwybrau ar Yr Wyddfa yn Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac mae arwynebau caled arnynt ac maent wedi cael eu diffinio'n dda, felly nid oes angen yr agwedd hon. Fodd bynnag, bydd angen caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer digwyddiadau mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig - megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (AGA) neu Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC).

Gellir cael cyngor am unrhyw safleoedd archeolegol pwysig iawn gan CADW - gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Gall staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gynnig cyngor ac arweiniad ar unrhyw lwybrau y gallech eu hystyried er mwyn osgoi anawsterau posibl o ran bioamrywiaeth neu nodweddion archeolegol lle bynnag y gallent fod yn bresennol.

<https://naturalresources.wales/about-us/contact-us>

<http://cadw.gov.wales>

2. Rydym yn argymhell yn gryf y dylai holl drefnwyr digwyddiadau mawr neu ganolig gysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ymlaen llaw i bennu a yw eu dyddiadau'n addas ac i sicrhau nad ydynt yn gwrthdaro â digwyddiadau eraill sydd wedi cael eu cynllunio. Bydd swyddogion y Parc Cenedlaethol yn gallu cynghori trefnwyr i osgoi unrhyw anawsterau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Wyddfa trwy gydol y tymor. Efallai y bydd modd cynnal eich digwyddiad ar ddiwrnod arall nad yw'n gwrthdaro â digwyddiadau eraill sydd wedi cael eu cynllunio. Mae'r penwythnosau yn arbennig o brysur yn ystod tymor yr haf felly ystyriwch ganol mis Tachwedd neu ddyddiadau eraill yn ddiweddarach yn yr haf. Ceisiwch beidio â chynllunio digwyddiadau cynnar fel ym mis Mawrth neu fis Ebrill, oherwydd bydd amrywiadau yn y tywydd ar y mynydd yn fwy tebygol o ddigwydd ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

3. Ar gyfer digwyddiadau mawr sy'n ystyried defnyddio ffyrdd cyhoeddus (hy ar gyfer cerdded, rhedeg neu feicio) yna mae'n rhaid iddynt ymgynghori â naill ai Dimau Digwyddiadau Cyngor Gwynedd neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u Hadrannau Priffyrdd perthnasol a fydd yn rhoi gwybod pa ganiatâd / trwyddedu sydd eu hangen. Gweler y dolenni isod:

Gwefan Cyngor Gwynedd - <https://www.gwynedd.llyw.cymru>

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Events/Events.aspx>

Gwefan CBS Conwy

<http://www.conwy.gov.uk/>

4. Cynghorir unrhyw grwpiau digwyddiadau elusennol bach sy'n gweithredu neu godi arian ar ran unrhyw gyrff elusennol mwy i ofyn am gyngor (a chydysyniad) eu prif elusen ymlaen llaw yn hytrach nag ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd.



(Delwedd – diolch i Ras Mynydd Cader Idris)



Gwybodaeth a Chyngor Cyffredinol

Mae'r wybodaeth a'r cyngor hwn yn berthnasol ble bynnag yr ydych yn bwriadu cynnal eich Digwyddiad Wedi'i Drefnu neu eich Digwyddiad Elusennol:

Diogelwch Mynydd:

Hyd yn oed yn ystod prif dymor yr haf, edrychwch ar y dolenni Gwybodaeth am **Ddiogelwch ar y Mynydd** ar wefan y Parc Cenedlaethol a gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth yn cael ei dosbarthu'n helaeth i'ch holl gyfranogwyr ddigon ymlaen llaw i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n iawn. **Mae'r agwedd hon yn hanfodol i chi fel trefnwyr oherwydd mae gennych ddyletswydd gofal ac yn y pen draw chi sy'n gyfrifol am ddiogelwch eich cyfranogwyr.**

Noder* Ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau a all gynnwys plant o dan 18 oed y trefnwyr sy'n ysgwyddo'r ddyletswydd gyfreithiol am sicrhau eu bod yn ddiogel.

Cyfeiriwch at y ddolen isod:

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/visiting/safety-advice>

Sicrhewch fod yr holl wybodaeth berthnasol am y tywydd ar y mynydd ar gael ar gyfer yr holl gyfranogwyr o leiaf 5 diwrnod cyn eich digwyddiad. Defnyddiwch wefan Swyddfa'r Met ar gyfer Eryri, mae'r rhagolygon hyn ar gyfer y tywydd wedi cael eu llunio yn benodol ar gyfer yr ucheldiroedd. **Peidiwch â dibynnu ar unrhyw ragolygon tywydd cyffredinol sydd ar gael ar y teledu, radio na chyfryngau eraill.** Os yw'ch digwyddiad yn cael ei gynnal rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn darparu adroddiad sylfaenol ar Amodau'r Ddaear yn y Gaeaf ar y wefan (dolen isod). Bydd hyn yn eich galluogi i lunio barn briodol ynghylch eich digwyddiad ychydig ddyddiau ymlaen llaw ac fe allwch benderfynu a ddylid gohirio a defnyddio eich cynllun cyntaf wrth gefn neu'ch ail gynllun wrth gefn.

Dolen Swyddfa'r Tywydd (Met) ar gyfer Rhagolygon y Tywydd ar y Mynydd

<http://www.metoffice.gov.uk/public/weather/mountain-forecasts/snowdonia>

Amodau ar y Ddaear yn y Gaeaf

<http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/walking/ground-conditions>

Sicrhewch bod gennych gynllun wrth gefn a chynllun arall wrth gefn ar ben hynny.

Cynlluniwch ddyddiadau eraill ar gyfer eich digwyddiad bob amser hefyd rhag ofn y bydd angen i chi ohirio. Argymhellir hyn yn gryf os nad yw rhagolygon y tywydd ar gyfer eich dyddiad / dyddiad arfaethedig yn addas. Peidiwch ag oedi i fynd ati i ohirio eich digwyddiad ymlaen llaw os yw hyn yn wir a chofiwch gynnwys yr hyblygrwydd hwn yn eich gwaith cynllunio cyn y digwyddiad.

Holwch eich cyfranogwyr rhag ofn bod ganddynt broblemau iechyd difrifol neu fod angen cymorth ychwanegol arnynt - yn enwedig unrhyw beth a allai gael ei waethygu am eu bod yn cymryd rhan yn eich digwyddiad. Dylai trefnwyr ei gwneud yn gwbl glir i'r cyfranogwyr yn ystod unrhyw gyfnod cynllunio y dylent ddatgan neu roi gwybod i chi os oes ganddynt unrhyw faterion iechyd neu bryderon cysylltiedig â hynny fel eich bod yn gallu cynllunio yn unol â hynny.

- **Sbwriel.** Yn anffodus, mae hyn yn parhau i fod yn broblem fawr ac mae'n hanfodol nad oes unrhyw sbwriel, dillad nac offer segur yn cael eu gadael ar ôl yn unrhyw le yng nghefn gwlad nac ar fynyddoedd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cludo eich holl sbwriel neu gynhwysion bwyd a diod (ac mae hyn yn cynnwys rhai pydradwy megis croen banana, croen oren, corryn afalau a bagiau te) adref gyda chi. Gall y rhain gymryd blynyddoedd i bydru ac maent yn edrych yn hyll ar y mynyddoedd.
- Sicrhewch fod materion sbwriel / gwastraff yn rhan o'ch trafodaethau cyn y digwyddiad gyda chyfranogwyr cyn i chi gychwyn ar eich taith a sicrhewch fod popeth yn dod oddi ar y mynydd. Yn ddelfrydol, ewch â phopeth hefo chi ac ailgylchu cymaint â phosib. Penodwch rywun i ofalu am y mater hwn fel rhan o'ch gwaith cynllunio cyn y digwyddiad. Byddwch yn gyfrifol!



Parc Cenedlaethol Eryri 2016

- Aseiad risg. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i bob trefnwr ei wneud a gall amrywio yn dibynnu ar raddfa, math ac amgylchiadau'r digwyddiad ond bydd angen i unrhyw drefnwr, waeth beth yw maint y grŵp, roi ystyriaeth o ddifri i'r agwedd hon.

Y cyngor cyffredinol yw cadw pethau'n syml (un dudalen), yn ymarferol ac yn ddealladwy. Dylai peryglon ar y bryniau gynnwys llithro, baglu a chwympto, tywydd garw (h.y. gwres / haul / oer / gwynt / glaw / eira / rhew), disgyn o uchder, blinder / gor-flinder, codi neu ymdrin â llaw os oes angen neu unrhyw beryglon eraill a all fod yn berthnasol i'ch gweithgaredd penodol. Mae'n arfer da rhedeg trwy hyn gyda'ch cyfranogwyr cyn i chi fynd ati i atgyfnerthu unrhyw negeseuon diogelwch.

- Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aseidiadau Risg ar wefan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch. Gweler y dolenni isod
<http://www.hse.gov.uk/risk/principles.htm>
- Mae rhai sefydliadau'n hoffi cario neu arddangos baneri / fflagiau, ac yn aml maent yn ceisio cario eitemau mwy ar ddigwyddiadau wedi'u trefnu. Dylai trefnwyr roi ystyriaeth o ddifri i ganlyniadau cario unrhyw eitemau o'r fath ar dir anodd, yn enwedig y rhai a allai fod yn anodd eu rheoli'n gorfforol neu rai all fod yn anodd ymdrin â nhw mewn gwyntoedd uchel ac fe allant achosi anaf i gyfranogwyr eraill a cherddwyr. Ceisiwch gadw eitemau o'r fath yn syml ac yn llai trafferthus er mwyn sicrhau eu bod o dan reolaeth bob amser. Os yw'r amodau'n wyntog neu'n gymylog, ystyriwch eu gadael ar ôl.
- Mae angen **marcio llwybrau dros dro** ar gyfer digwyddiadau (er na anogir hyn), ond fe ddylid gwneud hyn yn ofalus, ac fe ddylid eu symud yn syth ar ôl eich digwyddiad (fel rhan o'ch gwaith clirio ar ôl y digwyddiad). Dylai unrhyw farcwyr ffordd dros dro gynnwys manylion cyswllt y digwyddiad yn glir ar y cefn er mwyn ein galluogi i gysylltu â threfnwyr am ba bynnag reswm neu er mwyn dychwelyd unrhyw bethau a adewir ar ôl yn ddamweiniol. Hyd yn oed ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, bydd angen caniatâd gan dirfeddianwyr ar gyfer codi unrhyw arwyddion dros dro.
- **Ni chaniateir marcio gyda chwistrell (spray)** o dan unrhyw amgylchiadau. Os ydych chi'n ansicr ynghylch yr agwedd hon, cysylltwch â'r swyddogion perthnasol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Rhaid symud unrhyw **ddodrefn dros dro** fel manau gwirio (checkpoints) neu faneri / baneri / gwaith papur oddi ar y mynydd unwaith y bydd y digwyddiad wedi'i gwblhau fel rhan o'ch gwaith clirio ar ôl y digwyddiad. Nodwch yn garedig na chaniateir i feysydd parcio'r Parc Cenedlaethol gael eu defnyddio fel manau gwirio / lluniaeth nac fel manau cychwyn / gorffen ar unrhyw adeg. Cofiwch mai lleoedd cyhoeddus yw'r rhain.
- Argymhellir y dylai pob digwyddiad gael yswiriant cyhoeddus digonol - dylai digwyddiadau bach ystyried yr agwedd hon hyd yn oed - ac fe ddylai digwyddiadau mwy gael gwarchodaeth Atebolrwydd Cyflogwyr i warchod eu staff dros dro (hynny yw, marsialiaid, gweinyddwyr Cymorth Cyntaf neu wirfoddolwyr eraill). Fe wnaiff y rhan fwyaf o gwmnïau yswiriant roi dyfynbrisiau ar gyfer digwyddiadau byr am gostau rhesymol. Mae gan y trefnwyr gyfrifoldeb cyfreithiol am eu cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a'u staff cyflogedig.
- Ni anogir casglu rhoddion elusennol ar y mynydd mewn bwcedi oherwydd gall hyn aflonyddu ar a difetha mwynhad cerddwyr ac ymwelwyr eraill - yn enwedig os bydd hyn yn digwydd yn aml yn ystod unrhyw ddiwrnod penodol. Felly, dylai'r sawl sy'n codi arian geisio sicrhau bod arian yn cael ei godi cyn y digwyddiad yn hytrach na chael ei gasglu ar y diwrnod.

Gwybodaeth a chyngor penodol ar gyfer Yr Wyddfa

Yn ychwanegol at y cyngor a roddir uchod mae'r canlynol yn ymwneud yn benodol â Digwyddiadau wedi'i Trefnu ar Yr Wyddfa.

Mae'r Wyddfa a llawer o'r mynyddoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol yn deithiau cerdded mynydd caled hyd yn oed yn ystod misoedd yr haf. Mae yna gamddealltwriaeth bod nifer o lwybrau ar Yr Wyddfa yn hawdd. **Nid yw hyn yn wir** felly gwnewch yn siŵr bod eich cyfranogwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol wrth ddefnyddio unrhyw lwybrau ar Yr Wyddfa neu gopaon uchel eraill yn y Parc Cenedlaethol. Dylai fod gan eich cyfranogwyr gyfarpar ac offer addas ar gyfer diwrnod llawn ar y mynydd a dim llai. Cliciwch ar y dolenni a argymhellir isod am ragor o wybodaeth.

- Dylai unrhyw ddigwyddiadau mawr ar Yr Wyddfa gadw mewn cof bod angen esgyn i fyny a dod i lawr y mynydd gan ddefnyddio **Llwybr Llanberis**. Am fanylion am y llwybrau eraill a Chod Ymddygiad Yr Wyddfa gweler y manylion llawn ar y dolenni isod:

Y rhan cerdded / ymweld ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/visiting/walking>

Gwybodaeth am holl lwybrau'r Wyddfa, gan gynnwys trac Llanberis:

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/visiting/walking/mountain-walks>

Y tu allan i dymor ymwelwyr (diwedd Hydref hyd fis Mai), nid oes unrhyw gyfleusterau ar gopa'r Wyddfa ond noder hefyd y gall y caffi a'r orsaf reilffordd fod ar gau hyd yn oed yn yr haf os bydd y tywydd yn ddrwg, felly peidiwch â chymryd yn ganiataol bod yr adnodd hwn yn agored bob amser. Cynlluniwch ymlaen llaw gan sicrhau bod pobl yn defnyddio toiled cyn cychwyn ac yn cario digon o fwyd a diod a dillad ychwanegol gyda hwy.

Yn achos digwyddiadau a drefnir ar gyfer oriau'r nos, megis cerdded neu feicio, cofiwch nad oes unrhyw gyfleusterau ar gael rhwng 6pm a 9am hyd yn oed yn yr haf. Mae'r caffi bach sydd hanner ffordd i fyny Llwybr Llanberis yn cynnig rhywfaint o fwyd a diod yn ystod y dydd yn unig. Ychydig o gyfleusterau toiled sydd yma ac mae'r rhain ar gyfer defnyddwyr y caffi yn unig.

*Peidiwch â chaniatáu nac annog unrhyw gyfranogwyr i gerdded i fyny nac i lawr unrhyw ran o Reilffordd yr Wyddfa yn enwedig yn agos at y copa ar unrhyw amser o'r flwyddyn. Mae hyn yn anghyfreithlon ac yn beryglus.

- Mae angen gofal arbennig ar gopa'r Wyddfa; yn ddaearyddol, ardal fach yw hon gyda nifer fawr o gerddwyr ac ymwelwyr ar y trêrn yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. 'Lle cyhoeddus' ydyw felly gwnewch yn siŵr na fydd eich digwyddiadau yn amharu ar fwynhad pobl eraill. Dylid lleoli unrhyw bwyntiau 'gwirio'i mewn' neu bwyntiau monitro bellter oddi wrth ardal y copa a'r caffi er mwyn osgoi tagfeydd. Gofynnwch am gyngor pellach ar hyn gan Swyddogion y Parc Cenedlaethol os bydd angen.



Llun trwy garedigrwydd Ras Berghaus Dragons Back – Ian Corless

• **Parcio a Chludiant Cynaliadwy**

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn annog trefnwyr digwyddiadau i ystyried cludiant cynaliadwy ac i ddefnyddio bysiau mini neu fysiau mawr **gwasanaeth Bws Sherpa** (i Ben y Pas) a rhannu ceir yn achos grwpiau yn hytrach na bod cyfranogwyr yn cyrraedd bawb yn ei gar ei hun.

Mae'r gwasanaeth **Bws Sherpa** yn rhedeg o Lanberis i Ben y Pas trwy Nant Peris ac mae'n addas iawn ar gyfer grwpiau bach yn hytrach na pharcio ym Mhen y Pas. Mae'r Sherpa yn codi teithwyr o Lanberis a Nant Peris ar ei ffordd i Ben y Pas.

Noder bod manau parcio yn brin iawn o ben bore ymlaen, yn enwedig yn ystod y tymor ymwelwyr ac nid yw'n bosibl archebu lle ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol ym Mhen y Pas, Cwellyn/Snowdon Ranger, Rhyd Ddu, Nant Peris na Phont Bethania.

Dylai gollwng cyfranogwyr oddi ar fysiau mawr, bysiau mini a cheir o bob maint gael ei arolygu yn ddigonol a'i gwblhau yn gyflym, yn effeithlon ac yn ddiogel o fewn yr ardal lle caniateir i fysiau aros. Os bydd angen, penodwch berson cyfrifol i ofalu am hyn fel rhan o'ch trefniadau ar gyfer y digwyddiad. Wedyn, dylai cerbydau adael yn ddiymdroi fel na fyddant yn rhwystro gwasanaethau teithio rheolaidd megis Gwasanaeth Bws Sherpa neu dacsis.

Dolen isod:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Travel-passes/Snowdon-Sherpa>.

Amserlenni Bws Cyngor Gwynedd

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Bus-timetables/Bus-timetables.aspx>



Cytundeb Beicio Gwirfoddol yr Wyddfa


Dylai trefnwyr a chyfranogwyr y digwyddiadau fod yn ymwybodol bod llwybr Llanberis yn llwybr ceffylau ac felly mae ar gael i feicwyr, cerddwyr a marchogion ceffylau. Fodd bynnag, mae'r llwybr hwn yn destun gwaharddiadau beicio o dan gytundeb mynediad gwirfoddol tymhorol ac nid yw ar gael i feicwyr rhwng 10am a 5pm o 1 Mai hyd 30 Medi. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y ddolen isod i wefan Parc Cenedlaethol.



<http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/get-active/Cycling-and-Mountain-Biking/voluntary-restrictions>

Noder* Mae cerddwyr a marchogion ceffylau bob amser yn cael blaenoriaeth ar unrhyw lwybrau ceffylau, felly trwy gyfraith, **mae'n rhaid** i feicwyr wneud lle iddynt bob amser (fel y nodir yn Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968).

Mae Llwybr y Mwynwyr ar gael i feicwyr hyd at yr hen felin gerllaw sarn Llyn Llydaw yn unig (SH629545) a dim pellach ar unrhyw achlysur.



Defnyddio Dronau

Mae rheolau yn gysylltiedig â defnyddio dronau mewn mannau cyhoeddus ac mae'r Awdurdod Hedfan Sifil wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer eu defnyddio. Ni ddylai'r drôn beryglu unrhyw un neu unrhyw beth.

- Rhaid i'r gweithredydd ei gadw o fewn llinell welediad (500m yn lloerweddol a 120m yn fertigol).
- Ni ddylai fod dros neu o fewn 150m o `ardal brysur` h.y. ardal breswyl, ardaloedd masnachol neu hamdden.
- Ni ddylai hedfan dros neu fod o fewn pellter o 150m o gynulliad wedi'i drefnu yn yr awyr agored (h.y. digwyddiad).
- Ni ddylai fod o fewn 50m o unrhyw gynhwysydd neu strwythur.
- Ni ddylai fod o fewn 30m i unrhyw berson ac eithrio wrth godi a glanio.
- Dylai perchnogion a gweithredwyr gael, lle bo angen, y gofynion trwyddedu perthnasol.
- Dylai gweithredwyr dalu sylw i unrhyw ofynion o dan y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer casglu, defnyddio, dosbarthu a storio unrhyw luniau / ffilmiau.

Dylai gweithredwyr hefyd nodi na ddylai dronau amharu ar fwynhad hamdden eraill o ddistawrwydd cefn gwlad ac ni ddylid rhwystro neu aflonyddu ar dda byw, anifeiliaid gwyllt (yn cynnwys adar), anifeiliaid domestig eraill neu anifeiliaid anwes pan fyddant yn cael eu defnyddio yng nghefn gwlad. Gallai gweithgareddau o'r fath ddod o dan ddeddfwriaeth arall ac fe allai arwain at erlyniad.

Gweler y ddolen isod.

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/authority/news-and-media/using-drones>

Llusernau a Balwnau

Nid yw'r Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r gweithgareddau hyn ar unrhyw fynydd yn y Parc Cenedlaethol. Mae gan llusernau fflamau agored a gallant fod yn beryglus os ydynt yn glanio ger tai neu ysguboriau.


Hyd yn oed os yw'r balwnau'n fioddiraddadwy gallant fod yn beryglus i anifeiliaid fferm ac ystyrir eu bod yn sbwriel pan fyddant yn glanio ar y tir - ni ddylid eu rhyddhau o gwbl.

Gall balwnau a llusernau hefyd fod yn beryglus i awyrennau sy'n hedfan yn isel megis hofrenyddion achub ac awyrennau eraill sy'n hedfan yn isel, sy'n gyffredin yn Eryri.



Tanau Agored

Ni chaniateir tanau agored (gan gynnwys barbeciw) ar yr Wyddfa.



Heriau'r Tri Chopa

Mae'r Wyddfa yn rhan o'r Her Tri Chopa wreiddiol (Yr Wyddfa, Scafell Pike a Ben Nevis) yn ogystal â Her Tri Chopa Cymru (Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan)

- Bydd pobl yn cyrraedd yr Wyddfa yn hwyr y nos neu ben bore i ymgymryd â Her y Tri Chopa. Mae'n hanfodol bod cyfranogwyr sy'n cyrraedd Pen y Pas neu Lanberis ar yr adegau hynny yn aflonyddu cyn lleied ag sydd bosibl (h.y. sŵn a golau) i ymwelwyr yn yr Hostel Ieuencid gerllaw nac i drigolion Llanberis. Peidiwch â chaniatáu i'ch cerbydau rwystro'r maes parcio i ymwelwyr eraill ac ar ddiwedd y digwyddiad dylid gwagio'r manau parcio cyn gynted ag y bo modd.

O gofio'r posibilrwydd o dagfeydd ym maes parcio Pen y Pas, yn enwedig ar y penwythnosau ac yn ystod misoedd yr haf, ystyriwch gynnal yr her ar ganol wythnos er mwyn lleihau problemau parcio yma fel ym meysydd parcio Ben Nevis a Wasdale Head.

Gellir cael gwybodaeth a chynghor pellach ar wefan Partneriaeth y Tri Chopa -

<http://www.threepeakspartnership.co.uk/>

Wedi'r digwyddiad!


Mae **clirio wedi digwyddiadau** yn hanfodol a dylai **pob** sbwriel, mân bethau h.y. baneri, arwyddion ac eitemau eraill gael eu symud y diwrnod hwnnw ac ni ddylid gadael unrhyw beth ar ôl wedi'r digwyddiad. Nid oes unrhyw gyfleusterau ar gyfer gwaredu sbwriel na llanast yn yr ucheldir felly rhaid dod â'r cyfan i lawr a mynd ag ef adref neu ei waredu yn gyfrifol. Ni ddylid gadael **dim** mewn unrhyw faes parcio yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys maes parcio Pen y Pas.

Ar ddiwedd y digwyddiad, mae'n syniad da cynnal trafodaeth gyda'r cyfranogwyr, y Parc Cenedlaethol a thirfeddianwyr perthnasol a derbyn eu sylwadau a'u hadborth hwy yn gyffredinol. Mae'n bosibl bod rhai materion nad oeddech chi fel trefnwyr yn ymwybodol ohonynt.



Meddwl yn Lleol!

- Ceisiwch annog cyfranogwyr i roi rhywbeth yn ôl i'r economi leol trwy aros yn yr ardal a defnyddio cyflenwyr llety lleol yn hytrach na theithio ar y diwrnod yn unig.
- Ceisiwch ddefnyddio busnesau lleol i gyflenwi ar gyfer eich digwyddiad. Mae hyn yn galluogi cyfranogwyr a threfnwyr i gyfrannu'n uniongyrchol tuag at yr economi leol. Gall Gwasanaeth Wardeiniaid a Mynediad y Parc Cenedlaethol roi gwybodaeth bellach i chi am hyn.
- Fel ymarfer da, byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn annog trefnwyr digwyddiadau i ystyried defnyddio trefnwyr a swyddogion / arweinwyr lleol (sydd â gwybodaeth leol a phrofiad sylweddol) i'w helpu gyda chynnal y digwyddiad.
- Defnyddiwch eich digwyddiad fel cyfle i hyrwyddo dibenion Parc Cenedlaethol Eryri. Gall digwyddiadau sydd wedi eu trefnu yn dda fod yn brofiad positif iawn i bawb ac annog pobl i ddychwelyd i'r ardal.
- Mae teithio ffordd bell yr un diwrnod ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yn gallu bod yn flinedig a gall amharu ar eich gallu i gychwyn y digwyddiad ar amser - bydd hynny yn amharu ar fwynhad y cyfranogwyr ar y diwrnod. Ystyriwch hyn yn fanwl wrth drafod eich blaen gynlluniau.



Cŵn yng nghefn gwlad ac anifeiliaid fferm

Dylai trefnwyr roi sylw arbennig i faterion yn ymwneud ag anifeiliaid fferm. Dylai trefnwyr gadw hyn mewn cof yn achos y Parc Cenedlaethol pan fyddant yn archwilio'r ardal cyn y digwyddiad, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau mwy lle bydd cŵn yn dod gyda'r cyfranogwyr.

Gall rhai caeau gynnwys gwartheg gyda lloi ifanc a gall y buchod hyn fod yn ofalus iawn o'u lloeau ac aflonyddu wrth weld grwpiau mawr o bobl, yn enwedig os bydd cŵn gyda hwy. Ceisiwch osgoi gwartheg a lloeau, defnyddio llwybr arall a chadw eich ci ar dennyn. Os cewch eich bygwth, gollyngwch y ci a'i dennyn yn syth ac ewch i chwilio am loches - fe fydd y ci yn siŵr o ddychwelyd atoch.

Mae mwyafrif yr ucheldir yn cael ei bori gan ddefaid ac ŵyn hefyd yn ystod misoedd yr haf felly gofawch na fyddwch yn gadael i'ch ci boeni defaid nac aflonyddu arnynt - **mae hyn yn drosedd**. Felly tynnwch sylw unrhyw gyfranogwyr gyda chŵn at hyn mewn da bryd cyn i chi gychwyn. Ein cyngor ni yw y **dylai pob ci fod ar dennyn os oes anifeiliaid wrth law**.

Felly, os byddwch yn gweld unrhyw anifeiliaid fferm, rhowch eich ci ar dennyn. Gweler y ddolen isod:

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/visiting/local-information/dog-owners>

Cyngor ar Wersylla Gwyllt

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, ni chaniateir gwersylla gwyllt o fewn y Parc Cenedlaethol ac mae angen caniatâd gan dirfeddianwyr perthnasol. Gweler arweiniad pellach yn rhestr yr Atodiad.

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/visiting/walking/where-can-you-go/wild-camping>

Hefyd mae nifer gyfyngedig o fythynnod neu "bothies" mynydd yn y Parc Cenedlaethol a gellir cael rhagor o wybodaeth gan y Gymdeithas Bothies ar y ddolen gwefan isod:

<http://www.mountainbothies.org.uk/bothy-details>



Mynediad at Ddŵr



O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes hawl statudol ar gyfer mynediad at ddŵr yng Nghymru a Lloegr, felly bydd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud ag unrhyw gyrff o ddŵr – gan gynnwys afonydd, llynnoedd, argaeau neu gamlesi – angen caniatâd gan dirfeddianwyr neu ymgymerywyr statudol megis cwmnïau dŵr. Os byddwch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â swyddogion y Parc Cenedlaethol.

Yng Ngogledd Eryri mae mynediad ar gyfer canwïo wedi'i drefnu trwy ganiatâd ar ran uchaf afon Conwy o Ysbyty Ifan i'r pwynt pellaf ger Bron Ruffydd ac ar afon Glaslyn rhwng Llyn Gwynant a Phont Aberglaslyn (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

Mae mynediad canwïo hefyd ar gael ar Lyn Trawsfynydd a chodir tâl amdano.
Pwynt cyswllt: canolfanPrysorcentre@yahoo.co.uk - 01766 540780

Mae mynediad ar gyfer digwyddiadau dŵr ar Lyn Tegid (Y Bala) hefyd yn golygu tâl. Cysylltwch â Swyddfa Warden Llyn y Bala am ragor o wybodaeth.
Arwel.Morris@eryri.llyw.cymru - 01678 520626

Mae'r holl ddyfroedd llanw ar gael ar gyfer canwïo, nofio neu hwylio ond holwch am fanylion cyfyngiadau llanw yn lleol.

Cofiwch fod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau o safbwynt bioddiogelwch ar unrhyw gyrff o ddŵr.

Am ragor o wybodaeth, gweler
<http://www.nonnativespecies.org/checkcleandry/>



Llyn Tegid

Llyn Tegid yw llyn naturiol mwyaf Cymru ac mae'n eiddo i Barc Cenedlaethol Eryri, a chaiff ei reoli ganddo. Mae gan y llyn hefyd ddynodiadau pwysig ar gyfer cadwraeth:

i) Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) – Safleoedd a sefydlwyd ledled yr Undeb Ewropeaidd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Maent yn rhan o rwydwaith Natura 2000 ac yn anelu at ddarparu mesurau cadwraeth i rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd arbennig Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd

ii) Ramsar - Mae'r Confensiwn ar wlyptiroedd, a elwir yn Gytundeb Ramsar, yn "gytundeb rhynglywodraethol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cadwraeth a defnydd doeth o wlyptiroedd a'u hadnoddau".

iii) Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Un o brif bwrpasau Parc Cenedlaethol Eryri yw cynnal y dynodiadau cadwraeth hynny a sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r llyn yn croesawu llawer o ddefnyddwyr gan gynnwys digwyddiadau, ac yn gwerthfawrogi bod llawer yn werth chweil, a phan y cânt eu rhedeg yn gyfrifol, gallant ddod â mwynhad mawr i gyfranogwyr, ac maent hefyd o fudd economaidd sylweddol i'r ardal.

Fodd bynnag, dim ond os yw'r gweithgareddau yn cael eu rheoli'n dda ac nid yn niweidiol i'r dynodiadau hynny y gellir cynnal digwyddiadau.

Mae hefyd yn bwysig bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal gyda gofal a thrwy gadw at y cyngor a gynigir gan Barc Cenedlaethol Eryri o ran diogelwch a bioddiogelwch.

Dylai trefnwyr digwyddiadau bob amser ymgynghori ymlaen llaw â Warden Parc Cenedlaethol Eryri yn Swyddfa'r Llyn, Blaendraeth Llyn Tegid, Ffordd Pensarn, Y Bala. Gwynedd. **LL23 7SR**

Neu ffonio: 01678 520626 neu warden.bala@eryri.llyw.cymru

Mae nifer o bwyntiau yr hoffem dynnu sylw'r trefnwyr digwyddiadau atynt:

Parcio, talu ac arddangos



Mae'r meysydd parcio cyhoeddus o amgylch y llyn i raddau helaeth yn rhai talu ac arddangos, a dylai trefnwyr digwyddiadau fod yn ymwybodol o hyn. * Nid yw Parc Cenedlaethol Eryri yn caniatáu i ddigwyddiadau gael defnydd llwyr o unrhyw feysydd parcio oni bai bod hynny drwy drefniant ymlaen llaw.

Chwaraeon dŵr



Defnyddir y llyn ar gyfer amrywiaeth o chwaraeon dŵr gan gynnwys syrffio gwynt, hwylio, canŵio, byrddio padlo, nofio ac fel canolfan ar gyfer digwyddiadau triathlon. Fodd bynnag, ni chaniateir unrhyw fath o gychod modur cyffredinol neu chwaraeon dŵr modur.

*Mae defnyddwyr yn defnyddio'r llyn ar eu menter eu hunain a dylai unrhyw ddigwyddiad gael asesiad risg llawn. Dylai asesiadau risg gael eu trosglwyddo i'r Warden Llyn i'w cymeradwyo/ am sylwadau cyn unrhyw ddigwyddiad a drefnwyd ar y llyn.

Trwyddedau.

Nodwch bod y taliadau ar gyfer unrhyw weithgareddau ar y dŵr gan gynnwys pysgota a chychod o unrhyw fath. Gellir cael trwyddedau gan Swyddfa Wardeiniaid y Bala ym mhen gogleddol eithaf y llyn, ger y maes parcio cyhoeddus ac maent ar gael o unrhyw un o'r peiriannau talu ac arddangos hefyd.

I gael gwybodaeth ychwanegol am y profiad pysgota gweler:

<http://www.balaanglinging.co.uk/page8.html>

Mae siart bathymetrig o'r llyn ar gael ar y wefan hon hefyd

Argymhellion ar gyfer chwaraeon dŵr:

Mae'n ofynnol cael siacedi achub neu gymhorthion arnofio a gymeradwywyd ar gyfer yr holl weithgareddau dŵr (ar wahân i nofio).

Nofwyr

Cynghorir gwisgo capiau llachar (hi viz) a dyfais arnofio pryd bynnag y bo modd. *Mae angen i chi fod yn ymwybodol o ddefnyddwyr eraill neu unrhyw ddigwyddiadau hwylio sy'n digwydd ar y llyn.* Rydym yn argymhell bod nofwyr yn cadw at y lôn nofio ochr orllewinol sy'n cael ei rhannu'n barthau gyda bwiau melyn. Mae hyn tua 50m o led (o'r draethlin) a 400m o hyd, gan ddechrau yn y lanfa ar y blaendraeth gogleddol.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall fod pysgotwyr ar ochr y llyn, a allai fod yn castio llinellau o dro i dro, felly ceisiwch osgoi hyn pryd bynnag y bo modd.

Nid oes unrhyw daliadau ar gyfer nofwyr cyffredinol ond codir 'tâl y pen' ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau nofio sydd wedi'u trefnu neu fel rhan o driathlon.

Dŵr oer

Mae'r llyn yn oer iawn, hyd yn oed yn ystod misoedd yr haf, felly dylai unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau fod yn gwbl ymwybodol o hyn. Dylai trefnwyr digwyddiadau gyfleu'r wybodaeth hon i unrhyw gyfranogwyr yn ystod unrhyw sesiynau briffio neu gyfarwyddiadau digwyddiadau, a sicrhau eu bod yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer hyn.

Bioggiogelwch

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cymryd y mater hwn o ddifrif. Mae gan gyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau dŵr ar y llyn gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw gyfarpar megis: byrddau padlo, syrffwyr gwynt, cychod gan gynnwys canŵod a chaiacau, dillad amddiffynnol megis 'waders', dyfeisiau arnofio, esgidiau glaw, esgidiau dŵr, siwtiau gwlyb/sych ac offer pysgota offer, yn cael eu glanhau yn drylwyr *cyn i chi gyrraedd y safle* ac yna ar ôl eu defnyddio.

Cyfeiriwch at y cysylltiadau canlynol am rywfaint o gyngor defnyddiol ar fioggiogelwch <http://www.nonnativespecies.org/checkcleandry/>

Algâu

O bryd i'w gilydd, yn enwedig mewn tywydd poeth, mae blodau algae yn ymddangos yn achlysurol ar y llyn. Yn gyffredinol, bydd y Wardeniaid llyn yn codi arwyddion yn cynghori pan fydd blodau yn bresennol, ond os ydych yn dod ar draws unrhyw beth tra yn y dŵr - symudwch i ffwrdd oddi wrtho ac ewch allan o'r dŵr, gan y gallant fod yn wenwynig. Rhowch wybod i'r Wardeniaid.



Am fwy o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod

<https://www.gov.uk/government/publications/algal-blooms-advice-for-the-public-and-landowners/algal-blooms-advice-for-the-public-and-landowners>

Sbwriel

Mae hon yn broblem enfawr a dylai unrhyw drefnydd digwyddiad sicrhau eich bod:

- i. Yn cynnwys hyn mewn unrhyw 'gynllun' digwyddiad a phenodi rhywun o'ch sefydliad i ddelio â'r mater hwn.
- ii. Sicrhau bod hyn yn cynnwys cael gwared ar wastraff organig megis calonnau afal, crwyn banana, croen oren a gweddillion bwyd arall.
- iii. Peidiwch â cheisio llenwi unrhyw finiau lleol yn y cyffiniau – ewch â phopeth i ffwrdd ac ailgylchu gymaint â phosibl.
- iv. Sicrhau bod y mater hwn yn cael ei gynnwys yn ystod unrhyw drefniadau clirio'i fyny ar ôl digwyddiad.

Cychod diogelwch ar gyfer digwyddiadau:



Caniateir cychod diogelwch modur mewn digwyddiadau hwylio neu nofio, ond mae'n rhaid cadw at y terfyn cyflymder a'i staffio gan berson cymwys (sydd â chymhwyster trin cwch bach cydnabyddedig).

Nodwch fod angen trwydded arbennig ar gyfer unrhyw grefft achub ar y llyn. Gellir ei gael gan y Swyddfa Wardeiniaid trwy drefnu ymlaen llaw.

01678 520626 neu warden.bala@eryri.llyw.cymru

Bwiau marcio



Gall digwyddiadau a gweithgareddau eraill ar y llyn gynnwys hwylio a syrffio gwynt a gallant fod yn rhai cyflym. Dylech ymdrechu i aros allan o ardaloedd sydd â bwiau marcio wedi'u rhifo. Bydd rhai digwyddiadau angen defnyddio bwiau marcio, y gellir eu cyflenwi yn lleol - cysylltwch â'r warden llyn am ragor o wybodaeth.

Tywydd



Mae Llyn Tegid yn llyn dŵr croyw mawr ond peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd amodau yn dyner neu'n gysgodol ar unrhyw adeg benodol. Byddwch yn ymwybodol y gall amodau newid yn gyflym a dylech fonitro hyn yn barhaus yn ystod unrhyw weithgareddau rydych yn ymgymryd â nhw. Dylech bob amser edrych ar y rhagolwg tywydd lleol ymlaen llaw.

https://www.metcheck.com/WEATHER/now_and_next.asp?zipcode=bala

Am gysylltiadau defnyddiol eraill i Bala - Llyn Tegid a gweithgareddau, gweler y cysylltiadau isod:

<http://www.gobala.org/>

<http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/places-to-visit/bala>

Am wybodaeth Llwybr Canŵ.

<http://www.gobala.org/en/canoe-tours>

Am we-gamera byw, dilynwch y ddolen hon

<http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/local-information/webcams>

Llwybr Bob Gallu

<http://www.gobala.org/en/trails/category/c/all-ability-trails>



Llun trwy garedigrwydd – Rat Race - Man vs Mountain

Gwybodaeth ar gyfer ffilmio ar dir Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae angen trwydded ar gyfer unrhyw ffilmio i ddibenion masnachol ar gopa'r Wyddfa, mewn meysydd parcio neu ardaloedd eraill sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri neu a reolir ganddo.

Dilynwch y dolenni isod:

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/authority/news-and-media/filming-in-Snowdonia>

Pwyntiau cyswllt Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Edward Jones 01766 770274 – Edward.jones@eryri.llyw.cymru
Llinos Angharad – 01766 770274 – Llinos.angharad@eryri.llyw.cymru

Defnyddio Dronau – Gweler y ddolen isod i wefan y Parc Cenedlaethol.

<http://www.eryri-National Park a.gov.uk/authority/news-and-media/using-drones>



Rhagor o gyngor ynghylch digwyddiadau codi arian yn y D.U.

Mae yna hefyd arweiniad generig ar gyfer Digwyddiadau Codi Arian yn yr Awyr Agored o fewn y D.U. – wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan y Sefydliad Codi Arian a Pharciau Cenedlaethol y D.U. Beth symbylodd hyn oedd pryder sylweddol ynghylch digwyddiadau o fewn ardaloedd dynodedig a oedd wedi'u trefnu'n wael. Y nod yw lleihau problemau posibl trwy annog trefnwyr i weithio gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, rheolwyr tir, sefydliadau perthnasol eraill ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau ymarfer gorau o safbwynt yr amgylchedd a diogelwch.

Gweler y dolenni isod am Arweiniad ar gyfer Digwyddiadau Codi Arian yn yr Awyr Agored, yn cynnwys cyngor Partneriaeth y Tri Chopa. Darllenwch a dilynwch y codau ymarfer hyn.

Sefydliad Codi Arian - Cod ymarfer ar gyfer codi arian

<http://www.institute-of-fundraising.org.uk/code-of-fundraising-practice/>

Helpu i warchod Parc Cenedlaethol Eryri. Helpwch ni i'ch helpu chi!


Yn anfwriadol, gall digwyddiadau gael effaith niweidiol ar ein tirwedd a'n amgylchedd dynodedig.

Er mwyn lleihau'r niwed hwn, rydym drwy'r amser yn gwneud gwelliannau a gwaith cynnal, sy'n golygu cryn fuddsoddiad ariannol. Mae'r gwaith yn cynnwys arwynebu, gosod llwybrau, walio, gosod arwyddion, draenio, cynnal ac ailosod cyfarpar a giatiau a darparu gwybodaeth ddigidol gyfredol. Trwy gyflwyno rhodd ariannol gallwch ein helpu i warchod yr ardal hyfryd hon yn awr ac i'r dyfodol.

Pe baech chi yn hoffi ystyried helpu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynnal yr amgylcheddau bregus hyn a darparu mynediad o ansawdd da, yna byddwchystal â gofyn i'ch cyfranogwyr a fyddent yn fodlon cyfrannu ychydig bunnoedd y pen i ni yn uniongyrchol, neu gallai trefnwyr gynnwys rhodd fel rhan o'r tâl cofrestru ac anfon yr arian ymlaen atom ni.

Efallai y byddai unigolion hefyd yn ystyried rhodd breifat gan ddefnyddio'r ffurflen isod.

A fydddechystal â gadael i ni wybod eich bod yn cyflwyno rhodd, gan nodi mai 'rhodd mynediad' ydyw fel y gellir rhoi'r arian yn y cyfrif cywir; mae sieciau a thâl drwy BACS yn daladwy i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri neu trwy drosglwyddiad banc uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion canlynol:



Enw'r Cyfrif: **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Cod Didoli: **20-35-47**

Rhif y Cyfrif **30507008**

Y swm y dymunwch ei roddi

Swm £

Eich enw

Cyfeiriad

.....

.....

Cod Post:

E-bost:

Cyfeiriad post – Swyddfa Parc Cenedlaethol Eryri, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF

Sylwer Plis!

Os ydych yn talu trwy BACS dylech roi cyfeirnod eich taliad fel '**Rhodd**'

Neu, gallwch gyflwyno rhodd i **Snowdonia Giving Scheme/Rhodd Eryri** trwy www.snowdoniagiving.wales/ lle bydd yr arian a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio yn ardal yr Wyddfa yn gyffredinol.

Caiff cynllun Snowdonia Giving ei weinyddu gan Fenter Môn ar ran **Partneriaeth Eryri** a busnesau sy'n rhan o'r cynllun. Menter gymdeithasol yw Menter Môn sy'n gweithredu ar sail dielw ar draws Gogledd Cymru. Nid yw'n codi unrhyw dâl am weinyddu ac mae 100% o'r holl arian a godir yn mynd tuag at y prosiect.

Mae **Partneriaeth yr Wyddfa** yn grŵp a sefydlwyd er mwyn creu, ac yna gweithredu, cynllun rheoli newydd ar gyfer yr Wyddfa. Mae'r grŵp yn cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r sefydliadau a'r tîrfeddiannwyr sy'n gyfrifol am reoli'r mynydd ar lawr gwlad – mae hyn yn amrywio o waith cadwraeth a rheoli llwybrau i dwristiaeth, ffermio ac achub mynydd. Am ragor o wybodaeth am brosiectau eraill a reolir gan Fenter Môn, gweler y ddolen isod.

www.mentermon.com

Diolch

Dymuna'r PARC CENEDLAETHOL ddiolch i chi ymlaen llaw am unrhyw gyfraniadau y dymunwch eu gwneud ac am wneud gwahaniaeth sylweddol i'r amgylchedd.

Caiff pob rhodd ei chydnabod (ond nid y swm) ar dudalen rhoddion ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Manylion Cyswllt Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Ar gyfer digwyddiadau **i lai na 100 o bobl ar yr Wyddfa**

Swyddfa Warden Pen y Pas - 01286 872555

wardenpenypass@eryri.llyw.cymru

Pencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

parc@eryri.llyw.cymru

01766 770274

Ar gyfer digwyddiadau bach a chanolig eu maint ar **Lyn Tegid (Y Bala)**

Swyddfa'r Warden - 01678 520626

Am sgwrs ynghylch digwyddiadau i dros 100 o bobl neu sgwrs gyffredinol:

Gofynnwch am yr adran mynediad - 01766 770274 neu parc@eryri.llyw.cymru

Manylion cyswllt gwasanaethau eraill

Am gymorth yn lleol a gwasanaethau cefnogol ar gyfer arweinwyr a gwybodaeth

Canolfannau Croeso

<http://www.visitwales.com/contact/tourist-information-centre/s>

Canolfan Groeso Betws y Coed (yn agored drwy'r flwyddyn)

Canolfan Groeso Parc Cenedlaethol Eryri,

Betws y Coed,

Conwy,

LL24 0AH

Ffôn: 01690 710426

E-bost: tic.byc@eryri.llyw.cymru

Canolfan Groeso Beddgelert (yn agored Pasg - Hydref)

Canolfan Hebog,
Beddgelert,
Gwynedd,
LL55 4YD
Ffôn: 01766 890 615
E-bost: tic.beddgelert@eryri.llyw.cymru

Canolfan Groeso Aberdyfi (yn agored Pasg – Hydref)

Wharf Gardens,
Aberdyfi,
Gwynedd,
LL35 0EE
Ffôn: 01654 767321
E-bost: tic.aberdyfi@eryri.llyw.cymru

Hwb Eryri – www.hwberyri.co.uk

Sefydliad Codi Arian (y corff proffesiynol ar gyfer codi arian yn y D.U.)
<https://www.fundraisingregulator.org.uk/code-of-fundraising-practice/code-of-fundraising-practice/>

Tywyswyr ac Arweinwyr Eryri

<http://www.snowdonia-guides.co.uk/contact-us.html>
<http://www.mountain-training.org/walking/other/find-a-leader>
<http://www.climb-snowdon.co.uk/>

Heddlu, Gwasanaethau Achub Mynydd, Ambiwllans, Tân a Gwylwyr y Glannau

Y pwynt cyswllt cyntaf mewn unrhyw argyfwng yw galw 999 neu 112 a gofyn am yr Heddlu, yna Achub Mynydd neu'r gwasanaeth y byddwch ei angen

Cyswllt uniongyrchol ar gyfer:

Tîm Achub Mynydd Llanberis

<http://www.llanberismountainrescue.co.uk/>

Tîm Dyffryn Ogwen

<http://www.ogwen-rescue.org.uk/>

Tîm Achub Mynydd Aberglaslyn

<http://www.aberglaslyn-mrt.org/>

Tîm De Eryri

<http://www.southsnowdoniamountainrescueteam.co.uk/>

Tîm Chwilio ac Achub Aberdyfi

<http://www.aberdyfi-sart.org.uk/>